O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1913 (Cy. 235)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Y Ffordd Ymadael tua'r De wrth Gyfnewidfa Nantgarw, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2012

Gwnaed	*13 Awst 2012*
Yn dod i rym	*22 Awst 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Awst 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Y Ffordd Ymadael tua'r De wrth Gyfnewidfa Nantgarw, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 22 Awst 2012 ac sy'n dod i ben pan dynnir yr arwyddion traffig dros dro oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn cyfan o ffordd ymadael tua'r de cefnffordd yr A470 wrth Gyfnewidfa Nantgarw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.